**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee on the Welsh Language and Education (Wales) Bill**

**WLE 09**
**Ymateb gan: Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)**
**Response from: Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)**

## 1. Egwyddorion cyffredinol Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodir

1.1 Rydym yn croesawu unrhyw strategaeth i hybu a hwyluso a sicrhau cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg. Rydym o'r farn, felly, fod gosod targed cynnydd penodol, meintiol mewn deddfwriaeth yn rhywbeth i'w ganmol. (Rhan 1:1) Cytunwn hefyd fod gan addysg ran bwysig i'w chwarae wrth anelu at y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg. O'r herwydd, teimlwn yn gryf fod angen sicrhau buddsoddiad sylweddol ym maes addysg, er mwyn gallu gwireddu'r dyheadau. Mae'r uchelgais a roddir o gael pob disgybl diwedd oedran ysgol gorfodol yn ddefnyddiwr Cymraeg annibynnol yn un clodwiw ac uchelgeisiol. Fodd bynnag, rhaid cadw mewn cof fod angen cyllid, amser ac adnoddau digonol er mwyn gwireddu'r dyhead.

1.2 Credwn fod datblygu Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd, a gosod y fframwaith mewn deddfwriaeth, yn gam pwysig tuag at sicrhau cysondeb. Bydd y cysondeb hwn a fydd yn deillio o'r ddeddfwriaeth yn gyfle i gyplysu ac alinio'r Fframwaith gyda chymwysterau (e.e. TGAU) a chyda gofynion amrywiol swyddi. Bydd y fframwaith yn sylfaen ar gyfer unigolion, ysgolion, byrddau arholi, awdurdodau lleol a gweithleoedd.

1.3 Mae gosod ysgolion ar daith ieithyddol yn ôl categori hefyd yn ymddangos yn gam i'r cyfeiriad cywir. Croesawn y ffaith mai dyhead y Bil yw cynyddu defnydd y Gymraeg yn ein hysgolion, ond mae gennym bryder ynghylch natur a diffiniad y categorïau, fel yr esboniwn yn nes ymlaen.

1.4 Yn gyffredinol, mae holl gynnwys y Bil yn gam cadarnhaol iawn ac yn ddatblygiad allweddol o ran yr iaith Gymraeg ac mae yma botensial i wneud gwahaniaeth mawr i gyflwr a statws yr iaith yn y Gymru sydd ohoni. Rydym yn hapus iawn gydag egwyddorion cyffredinol y Bil ac yn croesawu'r ddeddfwriaeth a ddylai rymuso a chadarnhau statws yr iaith.

## 2. A oes unrhyw rwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil ac a yw'r Bil yn eu hystyried?

### a) prinder gweithlu

2.1 Os yw addysg yn mynd i gyfrannu at wireddu dyheadau'r Bil, yna ni ellir pwysleisio digon pa mor allweddol fydd sicrhau gweithlu digonol o fewn ysgolion Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg i gyflawni'r dyheadau hyn. Yn ddi-os, bydd oblygiadau i'r proffesiwn o ran recriwtio staff a sicrhau hyfforddiant priodol iddynt ac, yn ogystal, bydd angen darparu adnoddau ac

amser i gefnogi ysgolion.  Rhaid cynllunio'n strategol ar gyfer y gofynion newydd. Mae ysgolion yn wynebu heriau cyllidol ar hyn o bryd ac yn sgil hynny gwelwyd nifer o athrawon yn colli swyddi.  Nid yw sefyllfa o'r fath yn ffafriol i wireddu dyheadau a thargedau'r Bil.   Fodd bynnag, mae uchelgeisiau'r Bil hwn mor allweddol, mae'n bwysig bod y gefnogaeth briodol yn cael ei rhoi, er mwyn sicrhau ei lwyddiant.

2.2 Mae peth gwaith eisoes wedi ei wneud yng *Nghynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg*, ond mae angen datblygu'r gwaith hwn ymhellach a sicrhau bod y cynlluniau sydd wedi eu nodi ynddo yn cael eu gwireddu.

2.3 Er mwyn recriwtio a chadw staff dysgu, bydd yn rhaid sicrhau bod y proffesiwn dysgu yn un apelgar, gyda'r telerau a'r amodau gwaith gorau posibl.  Rhaid sicrhau hyblygrwydd o fewn y proffesiwn, ynghyd ag amodau gwaith teg, gan roi sylw yn ddiymdroi i lwyth gwaith athrawon.  Mae hi'n gwbl amlwg fod athrawon yn wynebu llwyth gwaith gormodol ar hyn o bryd. Nid yn unig mae angen recriwtio mwy o athrawon, ond mae angen sicrhau cefnogaeth ddigonol iddynt wedi iddynt ddechrau ar eu gyrfa.  Os cynigir cymhellion, dylid olrhain llwybrau gyrfa y sawl sy'n eu derbyn a gosod amod ar y bwrsariaethau, e.e ymrwymiad i ddysgu yng Nghymru am gyfnod penodol.

**ch) cyfleoedd hyfforddiant**

2.4 Law yn llaw â'r prinder gweithlu, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth hefyd i'r gefnogaeth a'r hyfforddiant ieithyddol sydd ar gael i athrawon a darpar athrawon.  Mae angen sicrhau bod addysg gychwynnol athrawon yn cynnig yr hyfforddiant priodol, gan roi sylw i ofynion Bil y Gymraeg ac Addysg a hynny o fewn cyd-destun ysgolion o bob categori. Dylid sicrhau bod hyfforddiant cyffelyb ar gael i athrawon fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus. Mae angen cynllunio hyn yn strategol, cyn gynted â phosibl.

**b)  amwysedd terminoleg**

2.5 Mae'n hollbwysig bod ieithwedd a therminoleg y Bil yn gwbl glir.  Teimlir bod amwysedd o ran pwy sy'n cael ei ystyried yn  'siaradwr Cymraeg' (Rhan 1:3 (1)).  A yw 'hunanasesiad' oedolyn neu 'asesiadau rhiant neu ofalwr' (2:3(2)) yn mynd i fod yn dystiolaeth ddigon cydnerth? Cafwyd pryder yn dilyn cyfrifiad 2021, gyda nifer yn cwestiynu'r data.   Heb weld beth yw'r canllawiau ar gyfer yr asesiadau y sonnir amdanynt yn 3:3 (4), mae'n anodd gwybod a fydd y data y tro hwn yn fwy cydnerth a'i bod yn gwbl glir beth a olygir wrth 'siaradwr Cymraeg'.

2.6 Rydym hefyd o'r farn fod angen mwy o eglurder ynghylch categorïau ieithyddol ysgolion.  Rhaid sicrhau mai cadarnhau statws y Gymraeg fydd y categoreiddio ac nid glastwreiddio statws yr iaith.  Mae'n destun pryder mai'r nod ieithyddol ar gyfer ysgolion 'Dwy Iaith' yw bod y disgyblion yn cyrraedd lefel cyfeirio gyffredin o B2 neu B1.  Dylid disgwyl i nifer helaeth disgyblion mewn ysgolion o'r fath gyrraedd C1 neu C2.  Mae perygl gwirioneddol yma y bydd disgwyliadau ar ddisgyblion mewn rhai o'n hysgolion yn gostwng ac na fydd y disgwyliadau'n ddigon heriol.  Mae angen bod yn gwbl glir i ba gategori y mae ysgol yn perthyn a sicrhau bod disgwyliadau o ran y Gymraeg yn gydnaws â chyd-destun yr ysgol.

**c)  esemptiadau**

2.7 Mae pryder y bydd rhai ysgolion yn ceisio esemptiad (3:18), oherwydd nad oes athrawon ar gael i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, neu am resymau eraill. Mae hyd unrhyw esemptiad posibl yn peri gofid hefyd (tair blynedd a chyfle i ymestyn ymhellach). Mae'n rhaid gwneud parataodau trylwyr a darpariaethau manwl, er mwyn sicrhau llwyddiant y Bil ac nad oes angen esemptiad ar unrhyw ysgol. Mae cynllunio strategol yn hanfodol. Mae'r perygl o geisio esemptiad yn arbennig o berthnasol i ysgolion ar y ffin a'r rheiny sydd mewn ardaloedd Seisnig iawn.

**d) anghysondeb a allai fygwth cyfartaledd cyfleoedd**

- **addysg drochi hwyr**

2.8 Croesawn y cyfeiriadau at addysg drochi hwyr a chytunwn y dylai gwybodaeth am gynllun trochi fod yn rhan o bob pecyn gwybodaeth a gyflwynir i hwyrddyfodiaid. Rydym yn poeni, fodd bynnag, na fydd y cyfleoedd yr un fath i bob disgybl yng Nghymru. Dylai darpariaeth trochi hwyr fod ar gael i bob plentyn lle bynnag y mae ei gartref, beth bynnag yw ei allu, felly rhaid cael rhwydwaith o ganolfannau trochi ledled Cymru.

- **oriau cyswllt**

2.9 Mae hi hefyd yn bwysig bod ysgolion 'cyfrwng Saesneg' yn gorfod darparu digon o oriau cyswllt i sicrhau bod y dysgwyr yn datblygu'n siaradwyr hyderus. Ni ddylai ysgolion cyfrwng Saesneg fod mewn sefyllfa lle y byddai'n medru cynnig arlwy mwy amrywiol o bynciau nag ysgolion cyfrwng Cymraeg, gan na fyddai gofyn iddynt gynnig cymaint o oriau cyswllt o ran y Gymraeg. Dylai nifer y gwersi Cymraeg fod yr un fath mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg. Dylai'r isafswm a nodir gael ei fonitro gan awdurdodau lleol a Gweinidgoion y Llywodraeth.

- **Yr Athrofa (sicrhau eglurder)**

2.10 Mae sefydlu'r Athrofa er mwyn diwallu anghenion amrywiol fel y'u rhestrir yn y Bil yn rhywbeth i'w groesawu. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod cydweithio rhwng Yr Athrofa a sefydliadau eraill mewn ffordd integredig. Bydd angen edrych yn drylwyr ar yr hyn sydd eisoes wedi ei gyflawni, gan fod yn barod i werthuso yn feirniadol a gonest, er mwyn camu ymlaen yn y ffordd fwyaf effeithiol a mwyaf priodol ar gyfer y dyfodol. Mae'n bwysig bod yr Athrofa yn cael y gefnogaeth a'r cyllid priodol, fel y gall sicrhau bod y dulliau mwyaf effeithiol, gan gynnwys y datblygiadau technolegol diweddaraf, yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau y cynnydd gorau posibl wrth ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu.

**3. Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth**

3.1 Mae'n bwysig nodi bod angen mwy o fanylion ynghylch categorïau ysgolion. Mae hwn yn fater allweddol ac mae'n hollbwysig ein bod yn cael hwn yn gywir – gallai arwain at lwyddiant neu fethiant y Bil.

3.2 Yn yr un modd, teimlir bod yn rhaid bod yn gwbl eglur beth yw rôl yr Athrofa, gan sicrhau ei bod yn gwbl glir beth yn union yw'r disgwyliadau a sut y bydd y gwahanol sefydliadau yn cydweithio.

**4. A oes canlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil?**

4.1 Rydym yn croesawu pob ymdrech i gynyddu’r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion, ond rydym yn poeni y gallai cynnydd yn y ddarpariaeth greu cam argraff mewn rhai achosion.  Ni ddylid colli golwg ar y ffaith mai addysg cyfrwng Cymraeg yw’r ffordd orau o sicrhau siaradwyr hyderus, naturiol.

a) Rydym yn ofni y gallai rhai rhieni dybio (yn anghywir felly yn ein barn ni), y byddai eu plant yn dod yn siaradwyr rhugl o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg.
b) Rydym yn pryderu y gallai’r sefyllfa hon arwain at gyfyngu ar ddatblygiad ysgolion cyfrwng Cymraeg.
   Byddai a) a b) fel ei gilydd yn mynd yn gwbl groes i egwyddorion ac uchelgeisiau’r Bil.  Tybiwn fod angen sicrhau bod gan bob disgybl yng Nghymru yr hawl i addysg cyfrwng Cymraeg ac os nad oes darpariaeth ar gael yn lleol, bod trefniadau ar waith i gludo’r disgybl am ddim i’r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf a hynny o fewn pellter rhesymol.

**5. Beth yw goblygiadau ariannol y Bil (rhan 2)?**

5.1 Mae’n hollbwysig bod awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau sy’n darparu hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn derbyn yr arian sydd ei angen ar gyfer sicrhau gweithlu ac adnoddau digonol. Mae angen ystyried y bydd ysgolion yn wynebu costau cynyddol wrth iddynt orfod cynyddu/gwella eu darpariaeth o ran y Gymraeg. Mae cyfeiriad at hyn yn y ddogfen, ond yn yr hinsawdd gyllidol heriol sydd ohoni, mae angen sicrwydd y bydd digon o arian yn cael ei neilltuo i’r diben hwn.  Mae’n bwysig hefyd sicrhau bod cryn swm o arian yn cael ei neilltuo ar gyfer recriwtio ac uwchsgilio’r gweithlu. Ni ellir pwysleisio digon pa mor bwysig yw cael y nifer angenrheidiol o staff cymwys.

5.2 Bydd cost ychwanegol (o ran amser) i ddelio gyda chwestiynau, ymholiadau ayb a fydd ynghlwm wrth y newidiadau arfaethedig. Mae’n bwysig hefyd ystyried y gost ychwanegol ar gyfer sicrhau cefnogaeth i ddarpar athrawon wrth iddynt ddilyn cyrsiau hyfforddi, ariannu cyrsiau gloywi iaith a chyrsiau iaith, sicrhau hyfforddiant penodol ar gyfer dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, darparu cyllid digonol ar gyfer darparu gweithgareddau allgyrsiol mewn ysgolion.

5.3 Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol (tudalen 112), mae’r Bil ‘yn cysylltu’r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn glir â’r seilwaith a’r prosesau cynllunio sydd ynghlwm wrth gynyddu addysg Gymraeg.’  Mae’n bwysig, felly, bod buddsoddiad sylweddol mewn addysg Gymraeg.

5.4 Ymddengys fod yr Athrofa Genedlaethol yn mynd i fod yn sefydliad ehangach ei ddyletswyddau na’r Ganolfan Gymraeg bresennol.  Mae angen mwy o eglurder nag a geir ar hyn o bryd o ran cyllideb yr Athrofa.   Er mwyn sicrhau bod yr Athrofa’n datblygu yn y modd mwyaf effeithiol, mae’n rhaid sicrhau bod ei rôl yn glir a bod cyllid digonol yn cael ei neilltuo ar gyfer datblygiadau ym maes dysgu ieithoedd e.e datblygiadau technolegol.